



# Y Cyngor Ysgol



**DIOLCH**

**DIOLCH**

**DIOLCH**

Diolch i bawb a gyfrannodd tuag at ddiwrnod 'Plant Mewn Angen' eleni. Casglwyd y swm o £135.00, pan ddaeth pawb i'r ysgol yn gwisgo dillad eu hunain neu wisg Pudsey.

Yr un modd, diolch i'r rhieni sydd wedi cefnogi elusen T4U drwy gasglu bocsy o anrhegion ar gyfer plant bach mewn gwledydd tlawd. Eleni torrwyd pob record yma pan lwyddwyd i gasglu 101 ohonynt. Mae'r bocsys bellach wedi cyrraedd Romania.



Gobeithio'r flwyddyn nesaf y cawn weld taith ein bocsys ni i

Romania, pan ddaw Mr Wyn Owen sydd yn gweithio gyda'r elusen i ddangos ffilm o'r digwyddiad i ni.



Yn ystod mis Tachwedd buodd Mr Thomas yn rhedeg mewn ras Hanner Marathon yng Nghonwy. Roedd wedi cael ei noddi gan blant y Cyngor Ysgol i wneud hyn er mwyn cychwyn ar y gwaith o godi arian i greu llwybr rhedeg/cerdded o amgylch cae'r ysgol. Llwyddwyd i gasglu £631.40. Diolch yn fawr iawn.

**Aelodau'r Cyngor Ysgol**